*This document is available in English* **Eitem Agenda 20**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Hydref 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Adolygiad yr Awdurdod o Gyllideb 2025/26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi diweddariad i Aelodau ar y rhagolwg gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2025/26, fel yr oedd ar 30 Medi 2025.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cymeradwyodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gyllideb refeniw net o £51.788m ar gyfer 2025/26, i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Er mwyn cynnal y cap cyllideb hwn, cytunwyd ar nifer o fesurau nad ydynt yn rheolaidd, gan gynnwys defnyddio £0.601m o'r cronfeydd wrth gefn.

3 Cymeradwywyd cyllideb gyfalaf o £6.100m hefyd ar gyfer 2025/26, wedi'i hategu gan £2.589m mewn cyllid treigl o flynyddoedd blaenorol.

4 Yn seiliedig ar y gwariant hyd at 30 Medi 2025, mae'r rhagolwg refeniw yn dangos tanwariant o £0.248m, yn amodol ar lefelau gweithgarwch yr ochr weithredol.

5 Mae oedi gyda'r rhaglen gyfalaf oherwydd gohiriad eitemau i flynyddoedd eraill a llithriad o fewn prosiectau. Y gwariant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yw £6.506 miliwn, gyda rhagweliad y bydd rhaid treiglo £2.734 miliwn i 2026/27.

6 Y risgiau ariannol allweddol, unwaith eto, yw pwysau chwyddiant, tarfu ar y gadwyn gyflenwi, ac anwadalrwydd cyfraddau llog. Mae'r rhain yn cael eu monitro'n weithredol drwy'r Pwyllgor Cyllid a Chaffael ac yn cael eu hadlewyrchu yng nghofrestr risg yr Awdurdod.

## ARGYMHELLION

7 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) Nodi'r amrywiadau refeniw a chyfalaf a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, fel y manylir yn yr adroddiad; a**
**ii) Nodi'r risgiau ariannol pan fo'r ffigurau a ragwelir yn yr adroddiad hwn yn rhai ddarbodus.**

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

8 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

## CEFNDIR

9 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Cymeradwywyd y gyllideb derfynol ar gyfer 2025/26 gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb refeniw net o £51.788m i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

10 Wrth bennu'r gyllideb, cymeradwyodd yr Aelodau hefyd ystod o fesurau anghylchol sy'n angenrheidiol i gyflawni cydbwysedd ariannol yn 2025/26, a oedd yn cynnwys defnyddio £0.601m o'r cronfeydd wrth gefn.

11 Cyflwynwyd y cynllun cyfalaf o £6.100m i'r gweithgor Craffu ar y Gyllideb ac fe'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025. Cymeradwywyd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2034 yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2024 ac fe'i cadarnhawyd gan yr Awdurdod Tân yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2024.

12 Mae'r adroddiad monitro cyllideb hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa alldro gwariant refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

## GWYBODAETH

## Y GYLLIDEB REFENIW

13 **Cyflogau:** Mae costau gweithwyr yn cynrychioli dros 70% o wariant gros yr Awdurdod. Y gyllideb staffio gymeradwy ar gyfer 2025/26 yw £38,233m, sy'n cynnwys mesurau i gynnwys costau o fewn y cyllid y cytunwyd arno. Pan osodwyd y gyllideb, roedd y trafodaethau cyflog cenedlaethol yn dal i fynd.

14 Roedd y gyllideb yn tybio byddai dyfarniad cyflog o 3% i'r holl staff. Yn dilyn setliadau cenedlaethol, cadarnhawyd dyfarniadau cyflog terfynol o 3.2% ar gyfer staff y Llyfr Gwyrdd (o 1 Ebrill 2025) a staff y Llyfr Llwyd (o 1 Gorffennaf 2025). Mae hyn wedi arwain at bwysau cost cymedrol o £0.055m, a fydd yn cael ei reoli yn ystod y flwyddyn trwy wneud arbedion ac addasiadau i'r gyllideb a nodwyd.

15 **Costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau:** Mae'r rhagolygon ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn cyfrif am gostau hysbys ac unrhyw ostyngiadau mewn gwariant. Fodd bynnag, mae ansicrwydd yn parhau oherwydd y rhagolygon economaidd cyffredinol, pwysau chwyddiant posibl, a heriau yn y gadwyn gyflenwi sy'n deillio o amgylchiadau byd-eang.

16 **Incwm:** Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, ceir incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, yn ogystal ag ad-daliadau gan gyrff eraill mewn perthynas â'r defnydd o'n hadeiladau.

17 **Cost refeniw cyfalaf:** Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Rhagwelir y bydd tanwariant ar y gyllideb hon oherwydd yr oedi wrth gwblhau prosiectau cyfalaf 2024/25, gan olygu bod y costau wedi'u gohirio i'r blynyddoedd i ddod.

## RHAGOLWG ALLDRO REFENIW AR GYFER 2025/26

18 Ar hyn o bryd yn y flwyddyn ariannol mae sawl risg ac ansicrwydd a allai effeithio ar berfformiad ariannol yr Awdurdod. Rhagwelir y gallai'r alldro amrywio o adennill costau i danwariant o £1.4m cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Fodd bynnag, yn seiliedig ar wariant y flwyddyn hyd yma, mae'r rhagolwg refeniw blwyddyn lawn mwyaf tebygol ar 30 Medi 2025 wedi'i nodi isod, ac mae'n dangos tanwariant o £0.248m.

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) | Amrywiad (£m) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 38,233 | 37,622 | 611 | 2% |
| Adeiladau | 2,818 | 3,093 | (274) | -10% |
| Trafnidiaeth | 1,327 | 1,378 | (51) | -4% |
| Cyflenwadau | 6,182 | 6,011 | 171 | 3% |
| Taliadau Trydydd Parti | 367 | 427 | (60) | -16% |
| Cyllid Cyfalaf | 4,501 | 4,149 | 352 | 8% |
| Incwm | (1,039) | (1,140) | 101 | -10% |
| Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn | (601) | 0 | (601) | 100% |
| **Rhagolwg Alldro** | **51,788** | **51,540** | **248** | **0.5%** |

19 Mae rhagor o ansicrwydd yn bodoli mewn perthynas â'r angen am fenthyca ychwanegol ac am ail-ariannu benthyciadau ar ddiwedd 2025, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu cronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant yn y dyfodol.

**COSTAU GWEITHWYR**

20 Mae costau gweithwyr yn elfen sylweddol o gyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), gan gyfrif am dros 70% o'r gwariant gros. Mae hyn yn cynnwys cyflog, costau pensiwn, costau recriwtio a hyfforddiant, a gwasanaethau gweithwyr, e.e. gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

21 Mae camau yn parhau i gael eu cymryd i gryfhau argaeledd diffoddwyr tân ar y System Dyletswydd Ar Alwad ar draws y Gwasanaeth. Fel rhan o'r gwaith o osod cyllideb 2025/26, cymeradwyodd yr Awdurdod gynnydd o 15 o bersonél System Dyletswydd Ar Alwad, gan gynyddu'r nifer o staff a gyllidebwyd i 489, ar gost o £0.266m. Yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus, mae nifer gwirioneddol y staff wedi gwella o'i gymharu â 2024/25, ac mae bellach yn cyd-fynd yn fras â tharged y gyllideb.

22 Fodd bynnag, mae cyfanswm yr oriau sydd ar gael yn parhau i fod yn is na'r disgwyliadau, a hynny oherwydd bod cyfran uwch o ddiffoddwyr y System Dyletswydd Ar Alwad un gweithio llai o oriau. Mae hyn yn parhau i effeithio ar argaeledd cyffredinol. Mae'r tabl isod yn amlinellu cyfrif pennau misol y System Dyletswydd Ar Alwad a'r ffigurau sy'n cyfateb â 100% rhwng Mai a Medi 2025:

| Dadansoddiad System Dyletswydd Ar Alwad | Cyllideb 2025/26 | Mai-25 | Meh-25 | Gor-25 | Aws-25 | Med-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 489 | 485 | 487 | 492 | 485 | 484 |
| 100% cyfwerth | 391 | 362 | 364 | 366 | 361 | 357 |

23 Mae'r tanwariant o fewn cyllideb y System Dyletswydd Ar Alwad yn adlewyrchu heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff, yn ogystal ag amrywiadau mewn elfennau cyflog amrywiol, e.e. ffioedd ymarferion a lwfansau hyfforddi. Mae'r tanwariant hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ffioedd gweithgaredd sydd yn uwch na'r arfer. Mae hynny wedi'i yrru gan gynnydd o 15.7% mewn ymatebion i ddigwyddiadau dros chwarter 1 a 2, 2025/26 o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

24 Bu nifer uwch na'r disgwyl o ymddeoliadau ymhlith y staff gweithredol amser cyflawn, gan arwain at ddiffyg cyson o o leiaf bedair swydd wag Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) bob mis, gan gyrraedd uchafbwynt o 12 FTE ym mis Awst 2025. Mae mesurau recriwtio ar y gweill, ond disgwylir y bydd tanwariant. Defnyddiwyd goramser er mwyn cynnal capasiti gweithredol ac i ddarparu hyfforddiant hanfodol.

25 Mae'r anawsterau wrth benodi i swyddi arbenigol o fewn adrannau corfforaethol wedi parhau trwy gydol 2025/26. Disgwylir tanwariant blwyddyn lawn yn y meysydd hyn.

26 Y gwariant cyffredinol a ragwelir ar gyfer cost gweithwyr yw £37.114m, sy'n danwariant o £0.611m.

**COSTAU AC INCWM NAD YDYNT YN GYFLOGAU**

27 Rhagwelir y bydd Gorwariant o £0.214m yn y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau, sy'n cynnwys Adeiladau, Cyflenwadau Trafnidiaeth, Taliadau Trydydd Parti, ac Ariannu Cyfalaf.

28 Mae'r prif bwysau cost i'w cael o fewn Taliadau Trydydd Parti ac Adeiladau. Rhagwelir pwysau net o £0.186m erbyn diwedd y flwyddyn, wedi'i addasu i adlewyrchu tanwariant o fewn ariannu cyllid. Mae'r pwysau hwn yn cael ei yrru'n bennaf gan wariant untro sy'n gysylltiedig ag arolygon ac adroddiadau cyflwr, yn ogystal â chynnydd yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer cyfleusterau gyda Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol i lywio ac i alluogi penderfyniadau cynllunio ystadau ac i fuddsoddi cyfalaf yn y dyfodol.

29 Rhagwelir gorwariant o £0.051m o fewn y gyllideb Trafnidiaeth, a hynny wedi'i yrru'n bennaf gan gynnydd mwy na chwyddiant mewn costau yswiriant cerbydau.

30 Er hyn, mae rhywfaint o obaith o hyd y bydd y gyllideb cyflenwadau yn llwyddo i danwario erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys arbedion rheolaidd ac arbedion untro sy'n deillio o oedi mewn gwaith wedi'i gynllunio. Mae'r arbedion hyn wedi galluogi'r Gwasanaeth i ddefnyddio adnoddau ariannol presennol i amsugno'r costau parhaus sy'n deillio o'r adolygiad diwylliannol allanol, pe na cheir cyllid allanol erbyn diwedd y flwyddyn.

31 Oherwydd oedi yn y rhaglen gyfalaf dros y blynyddoedd diwethaf, a'r defnydd o Wariant Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw i ariannu prosiectau cyfalaf, mae costau ariannu cyfalaf wedi lleihau. O ganlyniad, disgwylir tanwariant yn y maes hwn. Mae gwaith craffu ar y rhaglen gyfalaf yn parhau i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyflawni'n brydlon o fewn yr amserlenni gofynnol.

32 Mae gwariant nad yw'n gyflog yn parhau i fod yn destun adolygiad parhaus gan ddeiliaid cyllideb, a hynny er mwyn sicrhau bod rhagamcanion yn parhau i fod yn rhesymol a bod costau anochel yn cael eu rheoli'n effeithiol. Bydd rhagolwg manylach yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd Chwarter 3, a bydd yn cynnig mwy o gywirdeb a sicrwydd.

33 Yn ogystal â'r ardoll ar awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm disgwyliedig o ffioedd, taliadau a grantiau. Daw’r incwm hwn yn bennaf o ailgodi tâl ar gyfer adeiladau a rennir gyda sefydliadau partner a chytundebau lefel gwasanaeth gyda chyrff allanol.

34 Mae sicrhau grantiau a chyllid allanol ar gyfer cynlluniau cyfalaf a refeniw yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol. Lle bo'n berthnasol, mae ail-daliadau yn cael eu trosglwyddo i sefydliadau eraill yn ystod y flwyddyn ariannol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd yr incwm £0.101 yn fwy na'r gyllideb, wedi’i yrru gan incwm ychwanegol o werthu cerbydau ac o ddyfarniadau grant.

**RHAGLEN GYFALAF**

35 Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf gwerth cyfanswm o £6.100m ym mis Ionawr 2025. Cafodd £2.589m ychwanegol ei gario ymlaen o 2024/25 oherwydd oedi wrth gyflenwi.

36 Ers i'r gyllideb gael ei phennu, sicrhawyd cyllid grant Llywodraeth Cymru o £0.570m gan y Gwasanaeth yn ystod Chwarter 4 2024/25. Bydd eitemau dethol o gynllun cyfalaf 2025/26 yn cael eu gohirio tan 2026/27 i ganiatáu i achosion busnes gael eu cwblhau ac i gyd-fynd ag amserlenni gwariant disgwyliedig, o ystyried y broses gaffael estynedig.

37 Ar ddiwedd mis Medi, roedd y gwariant cyfalaf yn £0.977m. Disgwylir i'r rhan fwyaf o gynlluniau gael eu cyflawni o fewn y flwyddyn ariannol hon, gydag amcanestyniad diwedd blwyddyn o £5.858m.

38 Oherwydd llithriad yn y rhaglen gyfalaf, rhagwelir cais am gyllid treigl o £2.734m. Ceir rhagor o fanylion yn y tabl cysylltiedig.

| Adran | Cyllideb £'000 | Gwirioneddol £'000 | Rhagolwg £'000 | Cyllid Treigl £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Fflyd | 2.392 | 0.284 | 1.718 | 0.750 |
| Cyfleusterau | 1.513 | 0.332 | 1.603 | 0.000 |
| TGCh | 0.232 | 0.000 | 0.217 | 0.000 |
| Gweithrediadau Technoleg | 0.395 | 0.000 | 0.322 | 0.000 |
| Gohiriedig | 1.568 | 0.000 | 0.000 | 1.568 |
| **Is-Gyfanswm** | **6.100** | **0.616** | **3.859** | **2.318** |
| **Arian treigl o flynyddoedd blaenorol** | | | | |
| Fflyd | 0.037 | 0.000 | 0.037 | 0.000 |
| Cyfleusterau | 1.092 | 0.275 | 0.959 | 0.000 |
| TGCh | 0.160 | 0.000 | 0.160 | 0.000 |
| Gweithrediadau Technoleg | 0.850 | 0.000 | 0.733 | 0.125 |
| Amgylchedd | 0.450 | 0.086 | 0.109 | 0.291 |
| **Is-Gyfanswm** | **2.589** | **0.361** | **1.998** | **0.416** |
| **Cynllun Cyfalaf Heb ei Ariannu 2025/26** | **8.689** | **0.977** | **5.858** | **2.734** |
| **Grantiau yn ystod y Flwyddyn** | | | | |
| Cyfleusterau – Y Rhyl | 0.648 | 0.000 | 0.648 | 0.000 |
| **Cynllun Cyfalaf wedi'i Ariannu 2025/26** | **0.648** | **0.000** | **0.648** | **0.000** |

39 Nodir yr arian a ragwelir ar gyfer gwariant cyfalaf isod:

| Cyllid | Swm £'m |
|---|---|
| Benthyca | 7.314 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 1.375 |
| Cyllid Grant | 0.648 |
| **Cyfanswm** | **9.337** |

**BENTHYCA**

40 Mae gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n bennaf trwy fenthyca allanol. Fodd bynnag, yn y tymor byr mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio arian parod dros ben, sy'n cael ei alw'n fenthyca mewnol, er mwyn lleihau costau ariannu ac i gynhyrchu arbedion refeniw.

41 Mae benthyca mewnol yn galluogi'r Awdurdod i ariannu buddsoddiadau cyfalaf dros dro heb fynd i ddyled benthyciad allanol ar unwaith. Mae'r dull hwn yn defnyddio cronfeydd arian parod sydd ar gael, balansau, a llif arian cadarnhaol i gyflenwi cyfalaf ac i ohirio costau llog.

42 Wrth i gronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio, mae'r angen i drosglwyddo o ddefnyddio fenthyca mewnol i ddefnyddio benthyca allanol yn cynyddu. Cyfanswm y benthyciadau dyledus ar 30 Medi 2025 oedd £15.319 miliwn, o'i gymharu â £19.073 miliwn ar 31 Mawrth 2025. Disgwylir benthyca allanol pellach wrth i'r rhaglen gyfalaf fynd rhagddo ac wrth i adnoddau mewnol yn cael eu defnyddio.

43 Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro ei strategaeth fenthyca er mwyn sicrhau fforddiadwyedd, cydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus, a chydymffurfiaeth â'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf cymeradwy.

**DANGOSYDDION DARBODUS – CH2 2025/26**

44 Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei wariant cyfalaf a'i fenthyciadau trwy gyfeirio at y dangosyddion canlynol. Mae Cod Darbodus CIPFA bellach yn gosod gofyniad i'r rhain gael eu hadrodd trwy gydol y flwyddyn ariannol. Cyfrifir y dangosyddion yn seiliedig ar yr wybodaeth yn Strategaeth Gyfalaf 2024/25 a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024.

**Gwariant Cyfalaf**

45 Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwariant cyfalaf ac mae'n cynllunio gwariant cyfalaf fel y nodir isod:

| | **2025/26 gwirioneddol £m** | **blaenamcan 2026/27 £m** | **cyllideb 2027/28 £m** |
|---|---|---|---|
| Rhaglen gyfalaf | 6.100 | 4.039 | 7.178 |

46 Ceir manylion pellach am brosiectau cyfalaf hyd yn hyn yn adran Rhaglen Gyfalaf yr adroddiad hwn.

**Gofyniad Ariannu Cyfalaf**

47 Mae swm cronnol yr Awdurdod o gyllid dyled sy'n weddill yn cael ei fesur gan y gofyniad ariannu cyfalaf (CFR). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir gan ddyled ac yn lleihau gyda darpariaeth isafswm refeniw a derbynion cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

| | **2024/25* gwirioneddol £m** | **2025/26 gwirioneddol £m** | **blaenamcan 2026/27 £m** | **blaenamcan 2027/28 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gofyniad ariannu cyfalaf | 31.0 | 35.1 | 38.4 | 44.4 |

*Yn eithrio costau sy'n gysylltiedig â phrynu tir.

**Dyled Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf**

48 Mae’r canllawiau statudol yn nodi y dylai dyled aros yn is na'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio ac yn disgwyl parhau i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn y tymor canolig fel y dangosir isod.

| | **2024/25 gwirioneddol £m** | **2025/26 gwirioneddol £m** | **2026/27 cyllideb £m** | **2027/28 cyllideb £m** |
|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Prydlesi Cyllid) | 19.073 | 15.319 | 28.508 | 30.234 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 31.0 | 35.1 | 38.4 | 44.4 |

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei phennu bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'r Awdurdod yn parhau i gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiadau ariannol a chynnal cyllideb gytbwys. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu’n briodol i'r Aelodau. |